

BRYNLEY F. ROBERTS yn olrhain y datblygiadau yn WYNEB-DDALEN GAIR Y BYWYD

UN O fanteision cael argraffiad ffacsimili o lyfrau oes arall yw'r cyfle a roir i bawb ohonom i droi'r daill yn hamddenol a syllu'n fwy pwylllog ar yr argraffwaith a'r addurn. Gwir nad oes gennym ffacsimili o Destament Newydd 1567 (cofier, er hynny, am argraffiad Robert Griffith, Caernarfon, ohono yn 1850), ond wedi cyhoeddi atgynhyrchiad o Llyfr Gwedd Gyffredin 1567 yn 1953 cafwyd ffacsimili o hwnnw yn 1965.

Yr oedd Thomas Powel wedi cyhoeddi ffacsimili defnyddiol o *Psalmau Dafydd o'r yn cyfieithiad a'r Beibl gyffredin* 1588 yn 1896, a chawsom ffacsimili o'r Beibl cyfan yn 1987 (eto cofier am adargraffiad R. Jones, Dolgellau yn 1821).

Y mae amrywiaeth tudalennau teitl Testament 1567 a Beiblau 1588, 1620 a 1630 yn ddi-ddorol. Ar un olwg nod amgen argraffu llyfr, a'i gymharu â chopio llawysgrif, yw'r tudalen deitl. Nid oedd yn arferol llunio tudalen deitl i destun mewn llawysgrif, er y gellid dwyn sylw at y brawddegau agoriadol trwy gyfrwng darlun neu addurn i'r fath raddau nes bod y tudalennau hyn yn rhai annibynnol.

Ond hyd yn oed yn yr achosion hyn nid datgan teitl neu ddisgrifiio cynnwys y gwaith a wneir, megis ar dudalen deitl. Pan droes copio yn argraffu yn y 15fed ganrif dilynwyd, ar y dechrau, arfer y llawysgrifau ac yn fynych ar derfyn y llyfr y ceir gwybodaeth megis enw'r argraffydd, dyddiad a man cyhoeddi ac efallai arwyddlun y wasg.

Yn ail hanner y ganrif y dechreuwyd argraffu disgrifiad o'r llyfr a'i deitl ar ddalen arbennig, a buan y sylweddolwyd gwerth y ddalen hon yn fodd i hysbysebu enw'r argraffydd. Erbyn dechrau'r 16fed ganrif yr oedd tudalen deitl wedi ymsefydlu yn rhan o gyflwyniad llyfr print.

Y MAE rhai llyfrau Cymraeg cynnar â thudalen deitl teipograffig, h.y. argreffir y teitl heb addurn o unrhyw fath. Mae *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd* 1546 (adargraffiad 1902) gyda'r imprint ar y diwedd, yn enghraifft fel y mae *Kyniver llith a ban* 1551 (adargraffiad 1931), er bod addurn elfennol iawn uwchben y gair cyntaf, ac wrth gwrs, dyma'r arfer a enillodd y dydd.

Ond dull mwy cyffredin yn y 16fed ganrif ac un a barhaodd yn hir yw gosod enw'r llyfr a'i awdur ar hanner uchaf y tudalen, weithiau gydag addurn uwchben; ar waelod y tudalen ceir yn fynych enw'r argraffydd a'r dyddiad, a llenwi'r gofod rhwng y teitl a gwaelod y ddalen â dyfais neu arwyddlun y wasg neu'r llyfrwerthwr, neu â darlun (bloc prendoriad) sy'n berthnasol - mwy neu lai - i'r cynnwys.


Enghraifft Gymraeg o ddefnyddio dyfais yw *Bardhoniaeth* ... William Middleton 1593 (adargraffiad yn 1930). Nid yw defnyddio prendoriadau mor gyffredin mewn llyfrau Cymraeg.

4

Testament Newydd ein Arglwydd JESU CHRIST.

Gwedy ei dynnu, yd y gadei yz ancypia-
ith, 'ait yn ei gylpdd o'r Groec a'r Latin, gan
newfodo sturf llychryen y gairiac-dodi. Eb lato hyn
y mae pop gair a dybitopt y bot yn andeallus,
at o ran llediaith y 'wlat, at o ancynestus
der y debydd, wedy ei nott at eg,
lurhau ar 'ledemyl y tu da
len gwyrchiol.

bot golaant te byt, a' charu o ddynion y tywyltuch



* Hon yw'r barnedigeth, gan ddyt

yn ddyt na'r golaant. Ioan. iij. c.

Matheu x iij. f.

Gwerthwch a veddwch o vudd
(Llyma'r man lle mae'r modd
Ac mewn ban angen ny bydd
I gael y Perl goel hapwedd).

Testament Newydd Salesbury

Un enghraifft dda yw *Athravaeth Gristnogawl* Morys Clynog 1568 (atgynhyrchiad yn 1880), lle y ceir engraffiad o'r croeshoeliad ac englyn wedi'i argraffu o'i amgylch.

Cynllun tebyg sydd ar wyneb-ddalen Testament Newydd William Salesbury. Yma gosodwyd y gwaith argraffu y tu mewn i linell ar bob ymyl, ac yn hanner isaf y tudalen ceir darlun trawiadol o bobl y cyfnod yn byw eu bywyd beunyddiol.

Ond mae dwy ran o dair y darlun dan gaddug cymylau duon ac yma y mae gwagedd, lladd, ysbeilio. Y mae'r traean arall yn olau dydd, - y tlodion, yr anafus a'r cleifion yn derbyn ymgeledd, ac o gwmpas y darlun mae'r adnod "Hon yw'r varnedigeth, gan ddyvot goleuni i'r byt, a' charu o ddynion y tywyllwch yn vwy na'r goleuni." Ioan iij. c. Matheu x iij. f.

Gwerthwch a veddwch o vudd
(Llyma'r man lle mae'r modd)
Ac mewn ban angen ny bydd
I gael y Perl goel hapwedd.

Eiddo'r wasg oedd y blociau hyn, ond y mae'r ddelwedd sydd yn y darlun yn adlais mor eglur o hoff ddelwedd Salesbury ei hun (hebsôn am eiriau Act 1563) o Gymru

dywyll mewn dybryd angen goleuni'r Gair fel mae'n anodd credu nad ef oedd yn gyfrifol am ei ddewis. Yn y gornel chwith uchaf enwir yr engraffwr *Bair delv*. Ond hyd yn hyn nid wyf wedi gallu olrhain dim o'i hanes ef na'r darlun effeithiol hwn.

HENRY Denham a argraffodd y Testament a hefyd y Llyfr Gwedd Gyffredin a'r Sallwyr a gyhoeddwyd yr un flwyddyn, y naill ym mis Hydref a'r llall ym mis Mai. Yr un flwyddyn, 1567, argraffodd ail argraffiad *A playne and a familiar Introduction* Salesbury, y tri llyfr dros Humfrey Toy.

Y mae tudalen deitl y Llyfr Gwedd yn dilyn arfer hollol wahanol i'r Testament (diaddurn, a hollol deipograffig yw'r *Introduction*). Trwy gydol y 16fed ganrif dull poblogaidd o ddylunio tudalen deitl oedd gosod ymyl o addurn o gwmpas y tudalen a chynnwys teitl y llyfr etc., yn y blwch y tu mewn i'r ymyl hwn. Amrywiai addurn yr ymyl.

Hyd tua chanol y ganrif ceid yn gyffredin addurn pensaernïol, colofnau y naill ochr a'r llall

(weithiau gyda phortreadau o rinweddau megis ffydd, cyfiawnder, gostyngeddwrwydd) wedi'u gosod ar sylfaen a thrawst sylweddol yn eu cysylltu ar y top. I bob pwrpas pedwar bloc wedi'i engraffio fyddai'r ymyl, un ar y top, un ar y gwaelod, a'r "colofnau" rhyngddynt i ffurfio'r ochr chwith a de.

Enghreifftiau nodweddiadol yw Geiriadur Salesbury (atgynhyrchiad 1877-78) ac *Yn y llyvyr hwnn* (atgynhyrchiad 1902). Dyna'r hyn sydd ar wyneb-ddalen Llyfr Gwedd Gyffredin 1567 ac yn y Sallwyr yn yr un gyfrol, ond gyda hyn o wahaniaeth, fod y colofnau wedi cyfnewid eu lle fel bod un chwith y Llyfr Gwedd ar y dde yn y Sallwyr, a'r un dde ar y chwith.

Nid yw'r tudalen deitl hwn gyda'i gerwiâu ac addurn deiliog yn arbennig i'r Llyfr Gwedd Gyffredin oherwydd defnyddid yr un blociau ar gyfer llyfrau eraill o bob math, ac er mai eiddo'r argraffydd oeddynt, trosglywyddid hwy o'r naill i'r llall gyda'r canlyniad fod rhai ohonynt yn dirywio ac yn torri gyda threigl y blynyddoedd.

Defnyddiwyd yr ymyl hwn ar y cyfandir yn 1535, ac yn Lloegr ar gyfer y Beibl Saesneg, Almanac ac Ystadudau'r Goron cyn cael eu defnyddio gan Henry Denham yn 1567 a 1569 ar gyfer y Llyfr Gwedd a llyfr croniciol.

JOHN Windet a argraffodd Llyfr Gwedd Gyffredin 1586. Defnyddiodd ef dudalen deitl hollol wahanol. Mars a Minerva yw'r ddwy "golofn" a cheir yr arfbais brenhinol ar y pediment uwchben; y mae enghreifftiau eraill o'r tudalen hwn rhwng 1581 a 1598.

Newidiwyd y tudalen eto pan argraffodd "Deputiaid Christopher Barker Printiwr i ardderchoccaf Fawrhdy y Frenhines" y Llyfr Gwedd a ddiwygiwyd gan William Morgan yn 1599. *Fides a Humilitas* yw'r "colofnau", ar y top ceir yr arfbais brenhinol ac ymhob cornel arwyddion y pedwar efengyllydd.

Gwnaeth Christopher Barker a'i Ddirprwyon ddefnydd helaeth o'r addurn hwn ac mae'n ddi-ddorol sylwi mai dyma'r un a ddefnyddiwyd ganddynt yn 1588 ar gyfer *Psalmau Dafydd* William Morgan fel y gwnaethpwyd ganddynt ar gyfer *The Psalter* yn 1579.

O gymharu'r ddau dudalen deitl mae'n hawdd gweld fel yr oedd y crae y gellir ei weld yn *Psalmau* 1588 wedi lledu a hollti'r bloc isaf erbyn 1599.

Dechreuodd Christopher Barker argraffu tua 1575 neu'n gynharach, ac yn 1577 cafodd batent Argraffydd y Frenhines a roes iddo'r hawl unigryw i argraffu'r Beibl. Llyfr Gwedd Gyffredin a dogfennau swyddogol. Bu farw yn 1599 ond yn 1588 yr oedd George Bishop a Ralph Newbery wedi'u penodi'n Ddirprwyon iddo. Y flwyddyn ganlynol, 1589, ymunodd ei fab Robert Barker â'r cwmni a dilynodd ef ei dad yn 1599.